# Necitumumab ar gyfer canser yr ysgyfaint cennog lle nad yw’r celloedd yn fach sy'n ddatblygedig neu'n fetastatig sydd heb ei drin

28 Medi 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Ni argymhellir necitumumab (Portrazza), a roddir gyda dau gyffur arall o'r enw gemcitabine a cisplatin, ar gyfer oedolion sydd â chanser yr ysgyfaint cennog lle nad yw’r celloedd yn fach sy'n rhyddhau derbynnydd y ffactor twf epidermaidd (EGFR) sy'n ddatblygedig yn lleol neu'n fetastatig nad yw wedi'i drin eisoes â chemotherapi.

**Beth mae hyn yn ei olygu i mi?**

Ni ddylid rhagnodi necitumumab, a roddir gyda gemcitabine a cisplatin, ar y GIG fel arfer ar gyfer canser yr ysgyfaint cennog lle nad yw’r celloedd yn fach sy'n rhyddhau derbynnydd y ffactor twf epidermaidd sy'n ddatblygedig yn lleol neu'n fetastatig nad yw wedi'i drin eisoes â chemotherapi. Dylai eich meddyg siarad â chi am yr opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael i chi.

Os ydych eisoes yn cymryd necitumumab ar gyfer y cyflwr hwn, dylech barhau i'w gymryd nes eich bod chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn addas rhoi'r gorau i'w gymryd.

**Y cyflwr a'r driniaeth**

Caiff canser yr ysgyfaint ei grwpio yn ddau brif fath o ganser, gan ddibynnu ar ei ymddangosiad o dan ficrosgop: canser yr ysgyfaint celloedd bach a chanser yr ysgyfaint lle nad yw’r celloedd yn fach. Mae carsinoma celloedd cennog, yn fath o ganser yr ysgyfaint lle nad yw’r celloedd yn fach. Mae canser sy'n ddatblygedig yn lleol neu'n fetastatig yn golygu ei fod wedi lledaenu i'r meinweoedd cyfagos neu i rannau eraill o'r corff. Gall y celloedd canser gael eu harchwilio i weld a ydynt yn rhyddhau EGFR. Os ydynt, bydd

cyffuriau sy'n rhwystro gweithrediad EGFR yn fwy tebygol o gael effaith gwrthganser.

Mae necitumumab yn gyffur gwrthganser ac mae'n gweithio drwy rwystro gweithrediad EGFR. Mae gemcitabine a cisplatin hefyd yn gyffuriau gwrthganser.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy. Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, 0207 688 5555
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000
- Sefydliad Canser yr Ysgyfaint Roy Castle, 0333 323 7200

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2141-6